Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

# Cyswllt Cyntaf y Cyhoedd â Heddlu Dyfed-Powys (DPP)

**Craffu Dwys** — **Hydref 2019**

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

## Beth wnaethon ni...

- Arolwg barn ar-lein, gan dderbyn 863 o ymatebion
- Ymgynghori wyneb yn wyneb a grwpiau ffocws â rhanddeiliaid allweddol
- Adolygu a chraffu ar ddata
- Ymchwil pen desg ar ddatblygiadau lleol a chenedlaehol a meincnodi mewn perthynas â chyswllt y cyhoedd

## Pam y gwnaethom hyn...

- Gwybodaeth a gasglwyd ar y pwysau a'r galw presennol ar Heddlu-Dyfed-Powys o ran cyswllt gan y cyhoedd
- Un o flaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu 2017-2021
- Cyfarwyddebau plismona cenedlaethol ar y modd y gall cyfathrebu digidol helpu i reoli Canolfannau Cyfathrebu'r Heddlu
- Poblogaeth wledig Dyfed-Powys sy'n heneiddio - yr angen i'r cyswllt ateb y gofyn

## Y ffeithiau:

- Mae preswylwyr yn parhau i ffafrio cyswllt wyneb yn wyneb
- Er i 87% o ymatebion yr arolwg gael eu gwneud ar-lein, roedd nifer yr ymatebwyr a oedd yn awyddus i allu riportio trosedd trwy'r cyfryngau cymdeithasol yn y dyfodol yn is na'r disgwyl
- Mae'r cyhoedd yn aneglur ynghylch sut a pham y dylent gysylltu â Heddlu Dyfed-Powys, ac mae hyn yn cael effaith niweidiol ar y galw
- Dim ond **40%** o alwadau i Ganolfan Gyfathrebu'r Heddlu dros gyfnod o 3 mis a riportiodd drosedd
- Mae galwadau 101 yn cymryd mwy o amser i'w datrys nag erioed oherwydd y ffocws ar ansawdd, sy'n cael effaith ar amseroedd aros galwadau
- Cyfathrebu / oedi gwael, yn seiliedig ar brofiad blaenorol defnyddwyr oedd wedi'u nodi fel y prif rwystrau i gysylltu â'r heddlu yn y dyfodol
- Nid yw DPP yn llwyr ddeall anghenion ei holl gymunedau amrywiol. Mae angen gwell dealltwriaeth er mwyn sicrhau bod yr Heddlu'n gwbl hygyrch

## Ein casgliadau...

- Ni all DPP gynnal y status quo mewn perthynas â rheoli cyswllt y cyhoedd;
- Mae angen mynd i'r afael â'r pwysau cynyddol o ran galwadau i Ganolfan Gyfathrebu'r Heddlu ar frys, gan symud galwadau diangen i asiantaethau neu unigolion mwy priodol o fewn DPP;
- Wrth edrych i'r dyfodol, ni all DPP ddiystyru'r ganran uchel o'r trigolion nad ydynt yn barod i ddibynnu'n llwyr ar gyswllt digidol. Rhaid i DPP gynllunio yn unol â hynny fel bod cyswllt digidol yn cynnwys dulliau cyswllt mwy traddodiadol.

**I ymweld â'm gwefan ac i gael mwy o wybodaeth am Heddlu Dyfed-Powys cliciwch ar y logos isod**

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER — Heddlu Police DYFED-POWYS

## Ein prif argymhellion...

1. Mae angen Strategaeth Rheoli Cyswllt glir sy'n esbonio sut y bydd DPP yn croesawu newid mewn cyswllt digidol yn y dyfodol, a'i fod yn addas ar gyfer cymunedau Dyfed-Powys;
2. Bod DPP yn gweithio gyda sefydliadau partner i ddatblygu ymhellach yr ymgyrch #maketherightcall i roi eglurder pellach i'r cyhoedd ar sut / pam y dylent gysylltu â'r heddlu;
3. Mae angen cynnal Archwiliad Hygyrchedd llawn ledled ardal yr heddlu;
4. Mae angen cynnal adolygiad llawn ar Orsafoedd Heddlu Symudol.